

Deddf Hapchwarae 2005

Nodiadau Esboniadol ynghylch Loteriau Cymdeithasau Bychain

1. Beth yw Loteri?

Yn ei hanfod, trefniant yw loteri, sy'n ateb y disgrifiad statudol o **loteri syml** neu **loteri gymhleth**, yn unol ag adran 14 o Ddeddf Hapchwarae 2005.

Mae trefniant yn **loteri syml** os:

- oes angen i bobl dalu i gymryd rhan;
- oes un neu ragor o wobrau yn cael eu dyrannu i un neu ragor o aelodau o ddosbarth; ac
- os yw'r gwobrau yn cael eu dyrannu gan ddefnyddio proses sy'n dibynnu'n llwyr ar hap.

Mae trefniant yn **loteri gymhleth** os:

- oes angen i bobl dalu i gymryd rhan;
- oes un neu ragor o wobrau yn cael eu dyrannu i un neu ragor o aelodau o ddosbarth;
- yw'r gwobrau yn cael eu dyrannu gan ddefnyddio cyfres o brosesau; ac
- os yw'r broses gyntaf o'r prosesau hynny yn dibynnu'n llwyr ar hap.

Mae trefniadau sy'n bodloni'r holl feini prawf yn y naill neu'r llall o'r categorïau uchod yn loteri yn ôl diffiniadau'r Ddeddf.

2. Beth yw Cymdeithas?

Mae adran 19 o'r Ddeddf yn diffinio cymdeithas felly os yw'n cael ei sefydlu a'i chynnal:

- at ddibenion elusenol;
- at ddiben galluogi cyfranogiad mewn, neu gefnogi, chwaraeon, athletau neu weithgaredd diwylliannol; neu
- at unrhyw ddiben anfasnachol arall ac eithrio elw preifat.

Mae'n rhan annatod o'r diffiniad hwn fod yn rhaid bod y gymdeithas wedi'i sefydlu at un o'r dibenion a ganiateir, a bod yn rhaid i enillion unrhyw loteri gael eu neilltuo at y dibenion hynny. Ni chaniateir sefydlu cymdeithas â'r unig bwrpas o hwyluso loteriau - rhaid bod ganddi ryw ddiben arall.

3. Beth yw Loteri Fach dan y Ddeddf?

Mae'r Ddeddf yn diffinio loteri cymdeithas fach, ac mae'r diffiniad wedi'i rannu'n ddwy ran wahanol:

- *statws* y gymdeithas – rhaid bod y gymdeithas dan sylw yn 'anfasnachol' (yn unol â'r "Diffiniad o gymdeithas", fel yr amlinellwyd yn **2.** uchod).
- *maint y loteri* - rhaid bod cyfanswm gwerth y tocynnau a fydd yn cael eu gwerthu fesul loteri unigol yn £20,000 neu lai, neu ni ddylai gwerth y tocynnau a fydd yn cael eu gwerthu ar gyfer eu holl loteriau mewn blwyddyn galendr, gyda'i gilydd, fod yn fwy na £250,000. Os yw'r gweithredwr yn bwriadu mynd dros ben y naill neu'r llall o'r gwerthoedd hyn, yna byddant yn cael eu hystyried yn weithredwr loteri fawr, a rhaid iddynt fod wedi'u trwyddedu gan y Comisiwn Hapchwarae ("y Comisiwn") yn lle hynny.

Mae'n rhaid i gymdeithas sy'n hyrwyddo loteri cymdeithas fach, drwy gydol y cyfnod pan fydd y loteri yn cael ei hyrwyddo, fod wedi'i chofrestru gydag awdurdod trwyddedu. Mae'n rhaid i'r

awdurdod trwyddedu y mae'n ofynnol i loteri cymdeithas fach gofrestru gydag ef fod yn yr ardal lle mae eu prif swyddfa wedi'i lleoli. Os yw'r awdurdod trwyddedu yn credu bod prif swyddfa'r gymdeithas wedi'i lleoli mewn ardal arall, dylai hysbysu'r gymdeithas a'r awdurdod arall cyn gynted â phosibl.

4. Beth yw'r terfynau a osodir ar loteriau cymdeithasau bychain?

Mae'r terfynau fel a ganlyn:

- rhaid i 20% o leiaf o enillion y loteri gael eu defnyddio at ddibenion y gymdeithas (atodlen 11, paragraff 33);
- ni all unrhyw wobwr unigol fod yn werth mwy na £25,000 (atodlen 11, paragraff 34);
- ni chaniateir trosglwyddo gwobrau rhwng loteriau ond lle bo pob loteri yr effeithir arni hefyd yn loteri cymdeithas fach sy'n cael ei hyrwyddo gan yr un gymdeithas, a lle mai'r wobwr unigol fwyaf yw £25,000 (atodlen 11, paragraff 35); a
- rhaid i bob tocyn yn y loteri gostio'r un peth a rhaid talu ffi'r tocyn i'r gymdeithas (h.y. rhaid i'r gymdeithas dderbyn taliad) cyn y gellir caniatáu i'r tocyn gael ei gynnwys yn y broses o dynnu tocynnau'r loteri (atodlen 11, paragraff 37).

5. Beth yw'r gwahaniaethau rhwng y Ddeddf a hen Ddeddf Loteriau a Difyrion 1976?

Mae'r Ddeddf yn llacio'r gyfraith ynghylch loteriau cymdeithasau rywfaint ac, yn benodol:

- yn cael gwared â'r terfynau unigol ar ganran yr enillion y gellir eu defnyddio ar gyfer treuliau neu wobrau – er bod y swm cyffredinol mwyaf y gellir ei dynnu ar gyfer treuliau a gwobrau yn dal i fod yn 80%, gydag isafswm o 20% yn mynd tuag at ddibenion y gymdeithas neu wariant yr awdurdod lleol;
- yn caniatáu trosglwyddo cronfeydd gwobrau o un loteri i loteri arall sy'n cael ei hyrwyddo gan yr un gymdeithas, ar yr amod nad yw'r wobwr unigol fwyaf yn fwy na £25,000 neu 10% o'r enillion gros;
- yn caniatáu gwerthu tocynnau drwy broses awtomatig; ac
- yn cael gwared â'r terfyn uchaf o £2 ar brisiau tocynnau.

6. Beth mae'n rhaid imi ei wneud er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau dan y Ddeddf?

Gan mai diben loteriau a ganiateir yw codi arian ar gyfer achosion anfasnachol, mae'r Ddeddf yn mynnu bod cyfran isaf o'r arian a godir gan y loteri yn cael ei sianelu tuag at nodau'r gymdeithas a oedd yn hyrwyddo'r loteri. Os na fydd loteri cymdeithas fach yn ufuddhau i'r terfynau hyn, yna bydd yn mynd yn groes i ddarpariaethau'r Ddeddf, ac felly gellir ei herlyn (gweler 4. uchod am fanylion ynghylch y terfynau).

Mae Paragraff 39 o Atodlen 11 yn y Ddeddf yn nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i'r gymdeithas sy'n hyrwyddo loteri cymdeithas fach ei hanfon ar ffurf dychwelebau at yr awdurdod trwyddedu y mae wedi'i chofrestru gydag ef, **ar ôl pob loteri a gynhelir**. Bydd y wybodaeth hon yn caniatáu inni asesu, yn benodol, a gedwir at y terfynau ariannol, a sicrhau bod unrhyw arian a godir yn cael ei ddefnyddio at y diben priodol. Dyma'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chyflwyno:

- trefniadau'r loteri – yn benodol, y dyddiad pan oedd y tocynnau ar gael i'w gwerthu neu'u cyflenwi, dyddiadau tynnu'r tocynnau a gwerth y gwobrau, gan gynnwys unrhyw wobrau a roddwyd ac unrhyw wobrau a drosglwyddwyd;
- enillion y loteri;

- y symiau a dynnwyd gan hyrwyddwyr y loteri i ddarparu gwobrau, gan gynnwys unrhyw wobrau a drosglwyddwyd;
- y symiau a dynnwyd gan hyrwyddwyr y loteri mewn perthynas â chostau trefnu'r loteri;
- pa un a oedd unrhyw dreuliau mewn cysylltiad â'r loteri heb eu talu drwy eu tynnu o'r enillion ac, os felly, swm y treuliau a'r ffynonellau a ddefnyddiwyd i'w talu; a'r
- swm a ddefnyddiwyd at y diben y mae'r gymdeithas sy'n hyrwyddo'r loteri yn cael ei chynnal (**rhaid** i hyn fod yn 20% o leiaf o'r enillion).

Mae Paragraff 39 o'r Ddeddf hefyd yn mynnu bod yn rhaid i'r dychwelebau:

- gael eu hanfon atom heb fod yn hwyrach na thri mis ar ôl dyddiad tynnu tocynnau'r loteri neu, yn achos 'loteriau sydyn' (cardiau crafu), cyn pen tri mis ar ôl y dyddiad olaf pan oedd y tocynnau ar werth; a
- chael eu llofnodi (mae llofnodion electronig yn dderbyniol os yw'r ddychweleb yn cael ei hanfon yn electronig) gan ddau aelod o'r gymdeithas y mae'n rhaid iddynt fod yn 18 oed neu drosodd, ac sydd wedi'u penodi at y diben yn ysgrifenedig gan y gymdeithas neu, os oes ganddi un, ei chorff llywodraethu, a chael eu hanfon gyda chopi o'u llythyr neu lythrau penodi.

Mae ffurflen ddychweleb, sydd i'w defnyddio gan gymdeithasau, ar gael oddi wrth Gyngor Sir Caerfyrddin.

7. A allwch chi wrthod cofrestru loteri? Os felly, ar ba sail?

Gallwn, byddwn yn gwrthod cais am unrhyw un o'r rhesymau canlynol:

- bod trwydded weithredu a ddelir gan y sawl sy'n gwneud cais i gofrestru loteri wedi'i dirymu, neu fod cais am drwydded weithredu a wnaed gan y sawl sy'n gwneud cais i gofrestru loteri wedi'i wrthod, o fewn y 5 mlynedd diwethaf.
- na ellir ystyried bod y gymdeithas dan sylw yn anfasnachol.
- bod un a fydd yn hyrwyddo'r loteri, neu a all fod yn gysylltiedig â hynny, wedi ei gael/chael yn euog o drosedd berthnasol.
- bod gwybodaeth a roddwyd yn y cais i gofrestru loteri, neu ynghyd â'r cais, yn anwir neu'n gamarweiniol.

Fodd bynnag, ni allwn wrthod cais i gofrestru loteri ond pan fydd y gymdeithas wedi cael cyfle i wneud sylwadau yn erbyn y penderfyniad i wrthod cais. Gellir derbyn y rhain mewn gwrandawriad ffurfiol neu drwy ohebiaeth. Byddwn yn hysbysu'r gymdeithas ynghylch y rhesymau pam yr ydym wedi penderfynu gwrthod cofrestru'r loteri a byddwn yn rhoi amlinelliad o leiaf o'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd wrth ddod i'r casgliad cychwynnol hwnnw – i'w galluogi i wneud unrhyw sylwadau y mae'n eu hystyried yn briodol.

Gall yr ymgeisydd neu'r gymdeithas benderfynu apelio yn erbyn y penderfyniad. Mae'n rhaid iddynt gofnodi apêl cyn pen 21 diwrnod ar ôl derbyn yr hysbysiad ynghylch y penderfyniad, ac mae'n rhaid ei chyflwyno'n uniongyrchol i'r llys ynadon lleol.

8. Beth yw'r rheoliadau ynghylch tocynnau loteri?

Gall loteriau olygu rhoi tocynnau gwirioneddol neu rith-docynnau i gyfranogwyr (mae rhith-docyn heb fod yn wirioneddol, er enghraifft, ar ffurf e-bost neu neges destun).

Mae Atodlen 11(36) yn mynnu bod yn rhaid i'r sawl sy'n prynu tocyn loteri cymdeithas fach dderbyn dogfen sy'n nodi:

- enw'r gymdeithas sy'n hyrwyddo'r loteri;
- pris y tocyn (rhaid iddo fod yr un peth ar gyfer yr holl docynnau);
- enw a chyfeiriad yr aelod o'r gymdeithas a benodwyd yn gyfrifol yn y gymdeithas am hyrwyddo loteriau bychain, neu (os oes un) reolwr loteriau allanol; a
- dyddiad tynnu'r tocynnau, neu'n galluogi'r dyddiad i gael ei bennu.

Fodd bynnag, gellir bodloni'r gofyniad i ddarparu'r wybodaeth hon drwy gynnig cyfle i'r cyfranogwr gadw'r neges yn electronig neu'i hargraffu.

Mae'r Ddeddf yn mynnu na all tocynnau loteri gael eu gwerthu ond gan bobl dros 16 oed i bobl dros 16 oed.

Ni ddylai tocynnau **gael eu gwerthu mewn stryd**, (mae stryd yn cynnwys unrhyw bont, ffordd, lôn, troedffordd, tanlwybr, sgwâr, cwrt neu dramwyfa - gan gynnwys tramwyfeydd drwy safleoedd caeëdig megis rhodfeydd siopa); fodd bynnag, gall tocynnau gael eu gwerthu o gaban, mewn siop neu o ddrws i ddrws.

9. Beth yw'r rheoliadau ynghylch gwobrau?

Gall y gwobrau a roddir mewn loteriau cymdeithasau bychain fod yn rhai ariannol neu'n rhai nad ydynt yn ariannol.

Fodd bynnag, ni ddylai swm yr arian sy'n cael ei dynnu o enillion y loteri i dalu am wobrau fod yn fwy na'r terfynau a bennwyd gan y Ddeddf - h.y. ynghyd ag unrhyw dreuliau sy'n gysylltiedig â chynnal y loteri, megis ffioedd y rheolwr, ni ddylai fod yn fwy nag 80% o gyfanswm enillion y loteri. Ni fyddai gwobrau a roddwyd yn cael eu cyfrif yn rhan o'r 80% (gan na fyddai unrhyw arian yn cael ei dynnu o'r enillion i dalu amdanynt) ond dylid eu datgan o hyd ar y ddychweleb ar ôl tynnu tocynnau'r loteri (gweler **6.** uchod).

10. Pa droseddau sy'n berthnasol i Loteriau dan y Ddeddf?

Troseddau dan y Ddeddf:

adran 258 Hyrwyddo loteri nad yw wedi'i heithrio heb drwydded

adran 259 Hwyluso loteri nad yw wedi'i heithrio heb drwydded

adran 260 Camddefnyddio elw loteri

adran 261 Camddefnyddio elw loteri sydd wedi'i heithrio

adran 262 Honni eich bod yn gweithredu loteri cymdeithas fach pan nad ydych wedi'ch cofrestru, neu fethu â chyflwyno'r dychwelebau gofynnol, neu gyflwyno dychwelebau anwir neu gamarweiniol, mewn perthynas â'r fath loteriau.

adran 326 Heb esgus rhesymol, rhwystro neu fethu â chydweithredu â pherson awdurdodedig sy'n arfer ei bwerau/phwerau.

adran 342 Heb esgus rhesymol, rhoi gwybodaeth anwir neu gamarweiniol i'r Comisiwn neu awdurdod trwyddedu.

12. A oes yn rhaid imi dalu ffi flynyddol i barhau i fod wedi fy nghofrestru?

Oes. Rhaid ei thalu o fewn y cyfnod o ddau fis sy'n dod i ben yn union cyn pen-blwydd y cofrestriad bob blwyddyn.